**EITEM AR YR AGENDA: 19**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**19eg Mawrth 2012**

**CYNLLUNIAU CYNEFINO'R AELODAU AR ÔL YR ETHOLIAD**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc yr Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am y trefniadau cynefino ar ôl yr etholiad ar gyfer aelodau newydd a'r rhai sy'n dychwelyd.

## Y Cefndir

2 Yn dilyn yr etholiad yn 2008, cynhaliwyd diwrnod hyfforddiant cynefino i aelodau newydd a'r rhai a oedd yn dychwelyd, a bu'r diwrnod yn llwyddiant. Ers hynny, mae'r aelodau wedi cael sesiynau hyfforddi cyn cyfarfodydd yr Awdurdod, a hefyd wedi cael eu gwahodd yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf i wahanol ddigwyddiadau o ddiddordeb.

## Gwybodaeth

3 Bydd yr Aelodau'n derbyn hyfforddiant cynefino "craidd" fel rhan o'u penodiad i'r Awdurdod Lleol perthnasol. Cynhelir diwrnod cynefino ar wahân, yn debyg i'r hyn â gynhaliwyd yn 2008, ddydd Iau, 14eg Mehefin 2012 yn OpTic i drafod rôl yr Awdurdod Tân ac Achub.

4 Cynhelir sesiynau hyfforddi rheolaidd cyn cyfarfodydd yr Awdurdod, a gwahoddir pob Aelod i ddod. Hefyd, gwahoddir yr Aelodau i gysylltu â Swyddog Cyswllt yr Aelodau os ydynt yn dymuno ychwanegu neu awgrymu meysydd hyfforddiant penodol i'w cynnwys o fewn y rhaglen hyfforddiant.

## Argymhelliad

5 Gofynnir i'r Aelodau nodi'r trefniadau ar gyfer cynefino a hyfforddi ar gyfer aelodau newydd a'r rhai sy'n dychwelyd.